**COFNODION CYFARFOD ANARFEROL Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 17 MEHEFIN 2024**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths

Mark Thomas

Morwenna Pugh

Troy Maclean

Peter Jones

Gareth Davies

Dafydd Dafis

Geoffrey Jones

David Meirion Jones

Linda Ann Jones (ar Zoom)

Ellen Pugh, Dirprwy Glerc

Sioned Graham-Cameron, Clerc

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Rory Francis ac Eifiona Davies.

**2. Datgan Buddiannau**

Datganodd Y Cynghorydd Mark Thomas fuddiant yn eitem 4, ond roedd ar gael i roi gwybodaeth i'r cynghorwyr.

**3. Materion y dylid eu trafod ar frys ym marn y Cadeirydd**

Nid oedd unrhyw faterion o'r fath.

**4. Caffi'r Pafiliwn**

Cyflwynwyd adroddiad i'r cynghorwyr gan y Clercod, ar gyfarfod a gawsant gyda thenantiaid y Caffi. Roedd y cynghorwyr hefyd wedi cael copi o'r brydles i'w hastudio. Yn ystod y drafodaeth, codwyd amrywiol bwyntiau lle'r hoffai'r cynghorwyr dderbyn gwybodaeth gan y tenantiaid, a chytunwyd anfon llythyr yn holi am y materion hynny, cyn trafod y cais gan y tenantiaid am le ychwanegol.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.49pm

DRAFT